

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

**BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU
STRYDLUN**

14 GORFFENNAF 2023

Cabinet Members:

Cynghorwyr: J.Hurley, W.F.Griffiths a/ac S.Jones (Cadeirydd)

Swyddogion yn bresennol:

C.Morris, D.Griffiths, S.Brennan, D. Phillips, A.Collins, J.Stevens, A.Harvey,
S.Owen, A.Phillips, T.Rees a/ac C.Plowman

Gwahoddedigion craffu:

S.Purseley a/ac T.Bowen

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Eglurwyd bod Eitem 14 o'r pecyn agenda a gylchredwyd wedi'i gohirio o'r cyfarfod hwn oherwydd yr angen am ragor o wybodaeth er mwyn ystyried yr adroddiad.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2023 a 2 Mehefin 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

7. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, caiff y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ei diwygio fel a ganlyn:-

Mae'r cwmnïau canlynol wedi pasio'r asesiadau gofynnol i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

<u>Cwmni</u>	<u>Categori</u>
Afan Treescapes Ltd (A075)	101, 111
Integrex Cyf (I018)	61, 111

Caiff y cwmni canlynol ei dynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy, oherwydd natur ei fusnes; Ymgynghorydd Garddwriaethol. Nid yw gwaith ymgynghori yn dod o dan gylch gwaith y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

<u>Cwmni</u>	<u>Categori</u>
ArbTS (A046)	107

Rheswm dros y Penderfyniad:

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro o fewn y categori perthnasol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

8. **GORCHYMYN HEOL Y PENTREF, GERDDI'R PENTREF, PENTRE AFAN A GERDDI BROOKLYN (DIRYMU, GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG A (GWAHARDD CERBYDAU MODUR AC EITHRIO MYNEDIAD) 2023**

Penderfyniad

- Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, fod y gwrthwynebiadau i Orchymyn Heol y Pentref, Gerddi'r Pentref, Pentre Afan a Gerddi Brooklyn (Dirymu, Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg a (Gwahardd Cerbydau Modur ac Eithrio Mynediad) 2023 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a gylchredwyd) yn cael eu cadarnhau'n rhannol.
- Bod y cynllun yn cael ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd, ac yr ymgynghorir ar gynllun ychwanegol (fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad a gylchredwyd).
- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

Rheswm dros y Penderfyniad

Roedd y Gorchmynion yn angenrheidiol er mwyn atal parcio diwahaniaeth er mwyn diogelwch ffyrdd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

9. **ARIAN CYFALAF Y STRYDLUN 2023/24**

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, fod y dyraniadau cyllid arfaethedig a nodir yn yr adroddiad a gylchredwyd yn cael eu cymeradwyo.

Rheswm dros y Penderfyniad

Penderfynu ar gynigion gwariant mewn perthynas ag arian 'Gwella Strydlun yr Amgylchedd' sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023-24.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

10. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2022/2023 - CHWARTER 4 (1 EBRILL 2022 - 31 RHAGFYR 2023)**

Penderfyniad

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

11. **EITEMAU BRYD**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r mater a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 12 ac 13 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm

Oherwydd yr elfen amser.

12. **YCHWANEGIAD AT FFFIOEDD A THALIADAU GOFAL STRYDOEDD 2023/2024**

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad integredig cyntaf, fod tâl gwastraff masnachol ychwanegol sy'n ymwneud â Gwastraff Gardd Gwyrdd/Torri Coed ar gyfradd o £56.34 y dunnell fetrig yn cael ei gymeradwyo i'w roi ar waith.

Rheswm dros y Penderfyniad

Cytuno ar dâl gwastraff masnachol ychwanegol am waredu gwastraff gardd a gynhyrchir yn fasnachol i'w ailgylchu.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

13. **GORCHYMYN PWRCASU GORFODOL ARFAETHEDIG – TIR AC ADEILADAU YM MHONTNEDDFECHAN**

Penderfyniadau

- Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad sgrinio effaith integredig, fod yr Aelodau'n rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i ddechrau'r gwaith sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer pwerau'r Gorchymyn Pwrcasu Gorfodol i'w defnyddio gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â'r tir ac adeiladau ym Mhontneddfechan, i hwyluso Prosiect Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.
- Bod adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Aelodau i'w gymeradwyo i ofyn am y Gorchymyn Pwrcasu Gorfodol ar yr adeg briodol.

Rheswm dros y Penderfyniad

Sicrhau y gallai'r cyngor gyflawni prosiect Cronfa Codi'r Gwastad Pontneddfechan.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

14. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

Penderfyniad

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (Ile bo'n briodol).

15. **GRANT EIDDO MASNACHOL, GRANT CREU LLEOEDD, CRONFA DATBLYGU EIDDO A'R GRONFA FFYNIANT CYMOEDD A PHENTREFI - DYFARNIAD UNIONGYRCHOL AR GYFER**

GWASANAETHAU MESUR MEINTIAU (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw i'r Aseiad Effaith Integredig, fod y cyngor yn cael sêl bendith i wneud dyfarniadau uniongyrchol i Faithful and Gould ac AHR Architects Ltd, ar gyfer gwasanaethau Mesur Meintiau dros dro ar gyfer prosiectau'r Grant Eiddo Masnachol, y Grant Creu Lleoedd, y Gronfa Datblygu Eiddo a'r Gronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi nes bod y broses gaffael gystadleuol yn cael ei chwblhau.

Rheswm dros y Penderfyniad

Cynorthwyo Adfywio i gwblhau prosiectau'r Grant Creu Lleoedd, y Gronfa Datblygu Eiddo a'r Gronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi tra bod y cyllid cyfyngedig yn dal i fod ar gael dros y ddwy flynedd ariannol nesaf

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

16. **CYTUNDEB OPSIYNAU AR GYFER CANIATÁU HAWDDFRAINT AM BYTH AR GYFER LLEDAENU FFORDD A GWAITH CYFARPAR TRYDANOL MEWN PERTHYNAS Â DATBLYGIAD ARFAETHEDIG FFERM WYNT MYNYDD FFORCH DWM YN NHONMAWR, PORT TALBOT A'R CYFFINIAU (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

Penderfyniad

Bod yr adroddiad yn cael ei ohirio.

17. **CYTUNDEB ARFAETHEDIG AR GYFER PRYDLESU UNED MANWERTHU 3 YN NATBLYGIAD MANWERTHU A HAMDDEN NEWYDD CANOL TREF CASTELL-NEDD I CHERRY BLOSSOM COMPANY LIMITED (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Aseiad Effaith Integredig, fod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi ar gyfer cytundeb am brydles, a phrydles yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad

Bydd caniatáu'r cytundeb am brydles a'r brydles yn caniatáu i'r safle gwag hwn sydd mewn lleoliad amlwg gael ei osod a'i weithredu gan gwmni lleol a darparu incwm blynyddol i'r cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

18. CYTUNDEB ARFAETHEDIG AM BRYDLES A PHRYDLESU RHAN O'R HEN ARDAL GYNHYRCHU YN THE METAL BOX CASTELL-NEDD I THREE SIXTY AQUACULTURE LIMITED (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

Penderfyniad

- Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, fod cam cyntaf, fod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi ar gyfer cytundeb am brydles, a phrydles yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad a gylchredwyd;
- Bod Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r cyngor yn cael eu heithrio'n unol â rheol 5, a bod y Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn cael awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu contract yn uniongyrchol i Andrew Scott Ltd ar gyfer y gwaith sydd ei angen yng ngweddill yr uned gynhyrchu.

Rheswm dros y Penderfyniad

Bydd caniatáu'r Cytundeb am brydles a'r brydles yn caniatáu i ran sylweddol o'r hen Ardal Gynhyrchu gael ei hadnewyddu, ei hailwampio, ac yna'i gosod i gwmni lleol dyfu ac ehangu a darparu incwm blynyddol i'r cyngor. Bydd dyfarnu'r contract ar gyfer gwaith yn uniongyrchol yn rhoi gwerth am arian i'r cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

19. CYTUNDEB AM BRYDLES, PRYDLES TIR, TRWYDDED I ADEILADU AC OPSIWN I BRYNU TIR AC ADEILADAU Y'U HADWAENIR FEL

**HEN SAFLE'R LLAETHDY GERLLAW CRIBBS ROW, CASTELL-
NEDD - ZOARS LIMITED (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Aseiad Effaith Integredig, fod yr amodau a thelerau diwygiedig ar gyfer caniatáu'r Cytundeb am Brydles, Prydles Tir, Trwydded i Adeiladu ac Opsiwn i Brynu i gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynllun llwybrau teithio llesol arfaethedig y cyngor, fel y nodir yn yr adroddiad uchod, yn cael eu cymeradwyo. Byddai hyn yn amodol ar ddarpariaeth y ceir cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â chydymffurfio â'r trefniadau arian grant cyn i'r cyngor ymrwymo i'r dogfennau perthnasol, ac os bydd angen ad-dalu'r arian grant, ni fydd hyn yn fwy na neu'n ofynnol cyn y symiau sydd i'w derbyn gan Zoars Ltd.

Rheswm dros y Penderfyniad

Bydd y Cytundeb am Brydles, Prydles Tir, Trwydded i Adeiladu ac Opsiwn i Brynu yn galluogi busnes lleol sefydledig i ddatblygu ac ehangu ei fusnes trwy fuddsoddiad ariannol sylweddol ac yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynllun llwybrau teithio llesol arfaethedig y cyngor er budd cymuned Castell-nedd a'r gymuned ehangach.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

CADEIRYDD